

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA-P-KW-1172-17

Lynne Neagle AC/AM
Cadeirydd y Pwyllgor Plant,
Pobl Ifanc ac Addysg

29 Mawrth 2017

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 07 Mawrth ynglŷn ag archwiliad y Pwyllgor i'r modd y mae cyngor arbenigol yn cael ei fwydo i'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Strategol fel rhan o'r strwythur llywodraethu ar gyfer diwygio'r cwricwlwm i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth am ddatblygiad y dull o roi'r cwricwlwm newydd ar waith ac yn cyfrannu ato. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r grŵp hwn ac mae'n ofynnol i bawb sy'n bresennol roi adborth i'w rhwydweithiau a'u sefydliadau, bwydo unrhyw negeseuon o'r sector ehangach yn ogystal â bod yn gyfaill beirniadol er mwyn herio, craffu a rhoi cyngor allanol.

Yn ddiweddar, sefydlwyd Panel Arbenigwyr ar Berthnasoedd Iach, i'w gadeirio gan yr Athro Emma Renold, er mwyn mynd i'r afael â'r angen parhaus i gefnogi ysgolion i ddarparu Addysg Perthnasoedd Iach o ansawdd da. Bydd y panel arbenigol yn rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg Perthnasoedd Iach fel rhan o'r cwricwlwm presennol a bydd hefyd yn helpu i lywio datblygiad cwricwlwm y dyfodol fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod o'r Panel hwn.

Mae ein priod swyddogion mewn cysylltiad â'i gilydd, ac mae'r sectorau Iechyd ac Addysg eisoes yn gweithredu ar y cyd, ac mae hyn yn gallu llywio datblygiad y cwricwlwm, er enghraifft Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

Dechreuodd y gwaith ar y broses lefel uchel o ddylunio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ym mis Ionawr 2017. Cytunwyd ar gynllun gwaith a cherrig milltir clir er mwyn creu fframwaith lefel uchel gychwynnol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad erbyn diwedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mis Mehefin eleni. Defnyddir y fframwaith hwn fel glasbrint i ddatblygu, creu cynnwys a phrofi modelau newydd yn llawn ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

Canolbwyntiodd y gweithdy Iechyd a Lles ym mis Chwefror ar les emosiynol a chorfforol. Roedd pwyslais cryf ar gynnwys arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd a disgyblaethau perthnasol eraill. Cafwyd cyflwyniad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'i waith ehangach ar les. Roedd swyddogion o swyddfa'r Comisiynydd Plant a Chwaraeon Cymru hefyd yn bresennol i lywio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm.

Mewn ail weithdy ym mis Mawrth cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarlun o'r cysylltiadau rhwng Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru a'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, a chafwyd neges glir gan y rhai a oedd yn bresennol y dylai'r agwedd Iechyd a Lles ar y cwricwlwm, a'r disgygliadau o ran ethos a diwylliant ehangach ysgol, adeiladu ar y gwaith da y mae ysgolion yn ei wneud eisoes fel rhan o'u cysylltiad â Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru.

Ein blaenoriaethau o ran mewnbwn arbenigol dros y misoedd nesaf, yn ychwanegol at arbenigedd cwricwlwm ac asesu mwy cyffredinol, fydd defnyddio arbenigedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid eraill ym maes iechyd mewn perthynas â Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a datblygiad plentyn ymhlith pynciau eraill, i sicrhau bod y fframwaith lefel uchel cychwynnol yn cael ei lywio gan fewnbwn ac ymchwil arbenigol. Bydd cyfleoedd pellach i ddefnyddio cyngor a chefnogaeth arbenigol gan arbenigwyr a sefydliadau iechyd y cyhoedd y tu hwnt i fis Mehefin, pan fydd cwmpas elfennau manwl y cwricwlwm yn cael ei bennu ac adnoddau yn cael eu casglu a'u datblygu.

O fewn Llywodraeth Cymru, mae ein swyddogion wedi sefydlu mecanwaith ymgysylltu sy'n cwmpasu'r ystod o ddiddordebau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn ni, ynghyd â Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn parhau i gydweithio er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i wella iechyd a lles plant drwy ddatblygu'r cwricwlwm newydd a thrwy'r rhaglen arolygu ysgolion.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport